




Cyngor Bro Morgannwg

Crynodeb o'r Cynllun Gwella

Arolwg ar Berfformiad 2014/15



● Cyflwyniad

Bob blwyddyn, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn llunio ei Gynllun Gwella Rhan 2: Arolwg Blyneddol ar Berfformiad, sy'n dangos yr hyn a gyflawnodd yn ystod y flwyddyn flaenorol, sef 2014/15, yn yr achos hwn. Mae'r crynodeb hwn yn tynnu sylw at wybodaeth allweddol yn y Cynllun, ac yn adrodd ar ein cynnydd o safbwynt cyflawni'r wyth amcan gwella a osodasom i ni'n hunain yng nghynllun blaengar, Cynllun Gwella Rhan 1: Amcanion Gwella 2014/15 a gyhoeddwyd yn Ebrill 2014. Mae'r cynllun llawn i'w weld ar wefan y Cyngor drwy fynd i www.valeofglamorgan.gov.uk.

Sut gwnaethom ni yn ôl ein Hamcanion Gwella?

Er gwaetha'r hinsawdd ariannol anodd, barnwyd i ni ddod i ben yn llwyddiannus â'r rhan fwyaf o'n hwyth amcan gwella ar gyfer 2014/15. Serch hynny, bydd yr amcanion gwella hyn yn parhau'n flaenoriaethau i'r Cyngor yn y tymor hir. Nid yw'r hyn a gyflawnwyd yn ystod 2014/15 ond megis dechrau rhaglen hir o gynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau i ddinasyddion y Fro ar hyd yr amser. Dengys cynlluniau'r Cyngor y gwaith yr ydym wrthi'n ei wneud.

Ein Hamcanion Gwella (yr hyn yr oeddem wedi addo ei wneud)	Cysylltiadau â Meysydd Canlyniad Cynllun Corfforaethol 2013-17	Ein hasesiad
Cymhwyso pobl leol yn well ar gyfer eu cyflogi drwy sicrhau bod ganddynt ddigon o gyfle i ddysgu a meithrin sgiliau galwedigaethol a sgiliau gwaith.	Dysgu a Sgiliau Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd.	Cyflawnwyd
Sicrhau bod lleoliadau plant a phobl ifanc dan ofal yn fwy cynaliadwy a sefydlog.	Plant a Phobl Ifanc Diogelu ein plant a'n pobl ifanc fregus.	Cyflawnwyd
Helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol.	Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol.	Cyflawnwyd
Cefnogi a gwella canol trefi Bro Morgannwg er lles trigolion, ymwelwyr a busnesau.	Adfywio Cynnal cymunedau egniol.	Cyflawnwyd
Sicrhau bod llai o bobl ifanc yn cael eu dosbarthu fel rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.	Dysgu a Sgiliau Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd.	Cyflawnwyd
Darparu 'grantiau cyfleusterau i'r anabl' yn gynt ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.	Tai Cynnig cymorth a chyngor.	Cyflawnwyd
Cefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella lefel cyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.	Dysgu a Sgiliau Gwella cyrhaeddiad a phresenoldeb yn ein hysgolion a'n canolfannau dysgu.	Cyflawnwyd
Gwella'r gwasanaeth trwsio ymatebol ar gyfer tenantiaid.	Tai Darparu gwasanaeth landlordiaid o safon.	Cyflawnwyd



Y genhedlaeth nesaf

Parc sglefrio, Dinas Powys


Gŵyl Fwyd Y Bont-faen

● Arolwg Cyffredinol ar Berfformiad


Ein perfformiad yn ôl Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol

Casglwyd a disgrifiwyd data ar gyfer 46 o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol yn ystod 2014/15. Mae gan 44 o'r rhain ddata y gellir ei gymharu â data'r flwyddyn flaenorol. Yn y gorffennol, bu Cyngor y Fro'n perfformio'n dda o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru, a dengys y graffau isod fod y duedd honno'n parhau.

Crynhai Perfformiad 2014/15



Nifer y Dangosyddion fesul Chwarter rhwng 2012/13 a 2014/15



Dyma'r data cywir ar 28 Awst 2015

Cyngor y Fro yw'r cyngor gorau yng Nghymru o safbwynt perfformio (ac un cyngor arall yn unig yng Nghymru a gofnododd yr un nifer o ddangosyddion yn y chwarterau uchaf neu uwch). Fe'i rhestrwyd gyda'r grŵp uchaf o awdurdodau yn ôl 48% o'r holl ddangosyddion perfformiad 'cymaradwy'. 50% o'r dangosyddion i gyd a nododd berfformiad gwell eleni na'r llynedd.

Bu'r Fro'n perfformio'n well na Chymru'n gyffredinol yn ôl 28 (61%) o'r dangosyddion 'cymaradwy', a gwelwyd canlyniad tebyg o'i gymharu â chynghorau Rhanbarth De Ddwyrain Cymru. Roedd ein perfformiad ar ei orau (ac wedi'i restru'n 1af yng Nghymru) yn y meysydd canlynol:

- Ni adawodd unrhyw blant, gan gynnwys 'plant dan ofal', addysg orfodol, hyfforddiant nac addysg yn y gwaith heb ennill cymhwyster allanol cymeradwy;
- Darparwyd pob datganiad (100%) o anghenion addysgol arbennig cyn pen 26 wythnos (ac eithrio a chan gynnwys eithriadau i'r amserlen);
- Rheolwyd y perygl ym mhob achos a gyfeiriwyd at y gwasanaethau amddiffyn oedolion (100%);



Llyfrgell Sirol Y Barri
Llanmaes
Farchnad, Y Barri

- Aseswyd anghenion pob gofalwr (100%);
- Sicrhawyd bod gan bob plentyn perthnasol (100%) gynllun llwybr;
- Cadwyd mewn cysylltiad â phob plentyn 19 oed dan ofal (100%);

Deallwn ei bod yn rhaid i ni wella mewn meysydd lle nad yw'r Cyngor yn perfformio gystal â gweddill Cymru. Mae'r rheiny'n cael sylw yn ein cynlluniau perthnasol ac yn cynnwys:

- Cefnogi pobl hŷn ac oedolion yn y gymuned;
- Trefnu i fwy o blant weld gweithiwr cymdeithasol wrth gael eu hasesu am y tro cyntaf;
- Gwella ffyrdd mewn cyflwr gwael;
- Sicrhau bod mwy o sefydliadau bwyd yn cydymffurfio â safonau hylendid bwyd;
- Denu mwy o bobl i ymweld â chanolfannau chwaraeon a hamdden;
- Adolygu pob pecyn gofal ar gyfer oedolion sydd i'w adolygu yn ystod y flwyddyn;
- Cynyddu nifer y pwyntiau y bydd plant dan ofal 16 oed yn eu sgorio ar gyfartaledd am gymwysterau allanol.

Cytundeb Canlyniadau â Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2016¹

Rydym wedi cymryd cam mawr tuag at gyrraedd nodau Cytundeb Canlyniadau 2013-2016 â Llywodraeth Cymru, drwy lwyddo i daro'r rhan fwyaf o'n targedau ar gyfer 2014/15. Serch hynny, casgliad darpariaethol yn unig yw hwn, am ei fod wedi'i seilio ar hunanasesiad. Petai'n cael sêl bendith Gweinidog Llywodraeth Cymru, byddai gennym £1.2 o filiynau o arian ychwanegol ar gyfer gwella gwasanaethau i drigolion y Fro. Cewch ddysgu mwy am hyn drwy gael golwg ar Gytundeb Canlyniadau 2013-2016: Asesiad Diwedd Blwyddyn 2014-15.



Machlud haul ym Mhenarth
Farchnad, y Barri
Parc sglefrio yn y Bont-faen

Cydweithio a Gweithio fel rhan o Bartneriaeth

Rydym yn dal i gydweithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol â sefydliadau amrywiol y sectorau cyhoeddus a phreifat, a'r trydydd sector er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf cymhleth sy'n wynebu ein dinasyddion a'n cymunedau. Drwy'r partneriaethau hyn, cawn weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer ein dinasyddion. Dyma rai o'n prif lwyddiannau yn ystod 2014/15:

- Sefydlu Gwasanaeth Rheoleiddio ar y Cyd â Chynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd. Bydd y ffordd newydd hon o weithio, sy'n darparu ar gyfer anghenion defnyddwyr o safbwynt amddiffyn y cyhoedd, yn sicrhau dyfodol hirdymor i wasanaethau rheoleiddio er lles trigolion y Fro ar adeg o brinder nawdd a galw cynyddol.
- Hwyluso'r defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy gydweithio â Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Bydd Canolfan Gyswllt UnFro erbyn hyn yn derbyn atgyfeiriadau am wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a sgrinio a lleoli yn y trydydd sector ar y cyd. O ganlyniad i'r drefn hon, bydd mwy o bobl yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cywir. Mae gennym system ar gyfer Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol erbyn hyn sy'n fwy effeithiol ac wedi'i chydgysylltu'n well. Byddwn gryn dipyn yn gyflymach yn ymateb i atgyfeiriadau, ac yn trafod rhai safonol yn chwarter yr amser a gymerwyd gynt (lleihad o 75%) a rhai â blaenoriaeth yn hanner yr amser (lleihad o 50%).
- Darparu mwy o unedau tai fforddiadwy yn y Fro drwy Fforwm Tai Datblygu Strategol². Yn ystod 2014/15, llwyddwyd i ddarparu 148 o unedau tai fforddiadwy drwy ddatblygu neu brynu eiddo. Roedd y rhain yn

¹ Mae'r Cytundeb Canlyniadau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor yn egluro sut y byddwn yn gweithio tuag at wella gwasanaethau ar gyfer dinasyddion a chymunedau'r Fro yng nghyd-destun blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb tair blynedd yn cynnwys grant a delir bob blwyddyn yn ôl pa mor llwyddiannus y bu'r Cyngor o safbwynt cyrraedd ei nodau.

² Bydd Fforwm Tai Datblygu Strategol, sy'n cynnwys swyddogion o'r Fro a chyfarwyddwyr datblygu landlordiaid cymdeithasol amrywiol yr ardal, yn ystyried y rhaglen bresennol ar gyfer datblygu tai fforddiadwy ac yn cynllunio ar gyfer datblygu yn y dyfodol drwy drafod materion fel prynu safleoedd, ceisiadau cynllunio a ffyrdoedd cyllido.

cynnwys cynllun gofal ychwanegol cyntaf y Fro a greodd 42 o gartrefi ar gyfer pobl dros 55 oed. Darparwyd 32 o gartrefi hefyd drwy 'les cynllunio'. Roedd y rhain yn gymysgedd o dai cymdeithasol ar rent, a thai a werthwyd drwy ein cynllun Mynnu Prynu³ am 70% o'u gwerth ar y farchnad i rai a oedd yn prynu tŷ am y tro cyntaf. Heb y cymorth hwn ni allasai'r bobl hynny fforddio cael troedle ar yr ysgol dai. Cafodd 16 o dai fforddiadwy eu darparu a'u gosod ar unwaith drwy ddefnyddio nawdd o Bartneriaeth Tai Cymru. Mae'r 6 uned sy'n weddill yn 'dai â chymorth' lle y bydd pobl ifanc a bregus a rhai sydd newydd adael gofal yr awdurdod yn cael cefnogaeth ddydd a nos a help i ddysgu sgiliau byw newydd a pharatoi ar gyfer byw'n annibynnol.

- Gan ddefnyddio nawdd rhanbarthol, yr ydym wedi gwella cynllun tai cysgodol ar gyfer pobl hŷn drwy foderneiddio'r stoc fel y bo'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Penodwyd swyddog sy'n cydweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol yn unsydd er mwyn penderfynu ar y math o lety sydd ei angen ar glaf ar ôl ei ryddhau o'r ysbyty (e.e. cyfleusterau 'cam i fyny cam i lawr' (tai cysgodol)). Bydd y swyddog hwnnw'n gweithio mewn ysbytai lleol erbyn hyn, a bu o gryn gymorth i ni leihau nifer yr achosion o 'oedi cyn tros glwyddo gofal'⁴.
- Rydym wedi gwella gwasanaethau Therapi Galwedigaethol drwy arbrofi â dulliau gweithredu newydd a fu o gymorth rhag i therapyddion galwedigaethol ymweld â chleientiaid yn fwy nag unwaith drwy gamgymeriad. Arbedwyd arian a chafodd cleientiaid well profiad o'r gwasanaeth o ganlyniad, am y bu llai o asesu gan wahanol arbenigwyr. Mae therapyddion galwedigaethol a chyfarpar hefyd ar gael yn amlach, a bydd hynny'n sicrhau bod y cyfarpar a'r ddarpariaeth ail-alluogi⁵ cywir yn cael eu cynnig. Byddwn yn cyfathrebu â defnyddwyr yn well, ac yn darparu gwell gwybodaeth, a bydd cleientiaid yn fwy cyfarwydd â'r broses a'r hyn y dylid ei ddisgwyl. Drwy weithio yn y ffordd yma, byddwn hefyd yn cydweithio'n fwy agos â seicotherapyddion er mwyn cefnogi defnyddwyr y gwasanaeth.

Cewch wybod mwy am brosiectau eraill y mae'r Cyngor wrthi'n eu cynnal drwy gael golwg ar y fersiwn llawn o'r Cynllun Gwella Rhan 2: Arolwg Blynyddol ar Berfformiad 2014/15, ar ein gwefan.

Barn ein Rheolyddion amdanom

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol oddi wrth Archwiliwr Cyffredinol Cymru (Medi 2015) ar y cyfan yn cymeradwyo ein cynlluniau ar gyfer gwella dulliau o ddarparu gwasanaethau. Yn ôl yr Adroddiad, "Mae'r Cyngor yn parhau i berfformio'n dda yn ôl y dangosyddion cenedlaethol a rheoli ei gyllid yn effeithiol. Mae ei drefniadau ar gyfer cynllunio ymlaen llaw, a'i gynnydd hyd yma'n argoeli'n dda ar gyfer gwella yn ystod 2015-16". Mae'r Cyngor yn ymateb drwy gynllunio ar gyfer gwella meysydd penodol yn y gwasanaethau a nodwyd. Cewch ddarllen ein Hadroddiad Gwella Blynyddol drwy fynd i www.wao.gov.uk



Penarth
Y Bont Faen
Pont y Werin

³ Cofrestr o bobl sydd am brynu tŷ drwy gynllun perchentyaeth ratach yw Mynnu Prynu. Y Cyngor sy'n ei rheoli ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Fe'i dyfeisiwyd ar gyfer rhai mewn sefyllfa ariannol sefydlog sy'n methu â phrynu tŷ heb gymorth.

⁴ Digwydd 'oedi cyn trosglwyddo gofal' pan fydd claf yn ddigon iach i gael ei symud o 'wely cyffredinol' neu 'wely tymor byr' mewn ysbyty ond yn dal i ddefnyddio'r gwely hwnnw.

⁵ Helpu pobl i ddod i ofalu amdanynt hwy eu hunain unwaith eto ar ôl salwch neu anaf yw ailalluogi.

Barn ein trigolion amdanom

Drwy annog cwsmeriaid i rannu eu barn a'u profiad, cawn fodd i wella ein gwasanaethau. Cawn hefyd weld ein perfformiad drwy lygaid y cyhoedd i ryw raddau. Mae prif ddarganfyddiadau'r Arolwg Barn Cyhoeddus diweddaraf a gynhaliwyd yn ystod 2014/15 wedi'u hegluro isod. Bu gwasanaethau'r Cyngor yn defnyddio'r darganfyddiadau hynny'n sail ar gyfer gwella yn ystod 2015/16.

- Dywedodd y rhan fwyaf o drigolion (84%) eu bod yn fodlon ar wasanaethau'r Cyngor. Er i lai o bobl fynegi barn gadarnhaol nag yn ystod 2012 (pan gofnodwyd canran o 93%), y mae lefel y boddhad yn dal yn uchel. Yn ôl yr Arolwg 1 o bob 6 o drigolion (16%) erbyn hyn sy'n anfodlon ar wasanaethau'r Cyngor, a 7% yn unig a gofnodwyd yn ystod 2012. Mae'r dirywiad yn lefel y boddhad rhwng 2012 a 2014 i'w briodoli i raddau i effaith torri cyllidebau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Barn gymysg oedd gan y cyhoedd am ganol trefi'r Fro. Y Bont-faen a Llanilltud Fawr a gafodd yr ymateb mwyaf cadarnhaol, gyda 9 o bob 10 o ymwelwyr yn teimlo bod canol y trefi hynny un ai'n weddol dda (94%) ynteu'n dda iawn (98%). 89% a deimlai felly am ganol tref Penarth. Er i'r rhan fwyaf o ymatebwyr fynegi barn weddol bositif am Y Barri, teimlai rhai fod canol y dref un ai'n 'eithaf gwael ynteu'n wael iawn'. 38% a deimlai felly am Heol Holton a 41% am y Stryd Fawr a Broad Street. Y rhesymau a roddwyd amlaf dros ystyried canol Y Barri'n wael oedd, 'mae golwg ddi-raen ar y lle' neu 'mae dewis gwael o siopau yno'. 9 o bob 10 hefyd a ystyriai fod canol eu trefi eu hunain un ai'n 'dda iawn ynteu'n weddol dda' o safbwynt gwasanaethau bws a'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr.
- Roedd pobl ar y cyfan yn fodlon iawn ar ganolfannau hamdden, gydag 8 o bob 10 o ymatebwyr (83%) un ai'n 'weddol fodlon ynteu'n fodlon iawn'. Serch hynny, er bod y mwyafrif yn dal yn fodlon, y mae llai o foddhad nag yn ystod 2012 pan ddywedodd 94% o ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth. Mae canran defnyddwyr canolfannau hamdden sy'n fodlon ar y gwasanaeth wedi cynyddu o 6% yn 2012 i 17% yn 2014. Bu cryn dipyn o ganmol ar hygyrchedd canolfannau hamdden, gyda 9 o bob 10 unigolyn (92%) yn dweud eu bod yn fodlon ar y ddarpariaeth, ac yr oedd yn agos i'r un nifer o bobl (89%) yn fodlon hefyd ar y wybodaeth a ddarperir am weithgareddau. Canran y rhai sy'n fodlon ar 'lanweithdra adeiladau' (72%) a'r rhai sy'n fodlon ar 'y gweithgareddau ar gynnig' (86%) sydd wedi disgyn fwyaf. Mae canran y rhai sy'n fodlon ar brisiau a chyfleusterau parcio fel petai wedi sefydlodi, gyda 84% yn mynegi bodlonrwydd yn y naill achos a 79% yn y llall.
- Mae'r ganran sy'n fodlon ar safon cynnal a chadw'r priffyrdd wedi aros yn uchel ar y cyfan, gydag ychydig dros dri chwarter yr ymatebwyr (77%) yn dweud eu bod un ai'n weddol fodlon ynteu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth. Serch hynny, y mae'r ganran wedi disgyn ers 2012, pan ddywedodd 86% o ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth. Mae'r ffigurau ar gyfer bodlonrwydd fesul y math o wasanaeth wedi aros yn debyg i ffigurau 2012. Y gwasanaethau a fodlonai ymatebwyr fwyaf oedd: arwyddion traffig ac arwyddion stryd (94%), clirio'r ffordd ar ôl damwain gar (92%) a goleuadau stryd (91%). Mewn arolygon blaenorol, nodwyd gostyngiad yn y nifer sy'n fodlon ar wasanaethau fel graeanu ffyrdd, cynnal a chadw ffyrdd a chynnal a chadw palmentydd. Dengys ffigurau arolwg 2014 fod pobl yn fwy neu lai'r un mor fodlon ar wasanaethau graeanu ffyrdd (78%) a chynnal a chadw ffyrdd (41%) eleni ag yr oeddynt yn ystod 2012. Canran y rhai sy'n fodlon ar y gwasanaeth cynnal a chadw palmentydd sydd wedi gostwng fwyaf serch hynny, am ei bod yn 51% eleni o'i chymharu â 68% yn 2012.
- Mae pobl yn dal yn fodlon iawn ar y ddarpariaeth ar gyfer cynnal a chadw parciau a thiroedd, a 92% o ymatebwyr a ddywedodd eu bod un ai'n 'weddol fodlon ynteu'n fodlon iawn' ar y gwasanaeth. Bron i hanner y rhai a ymatebodd (45%) a ddywedodd eu bod yn fodlon iawn. Mae hyn yn weddol debyg i'r ffigur a gofnodwyd yn 2012. Glanweithdra parciau gwledig a gafodd gydnabyddiaeth arbennig, gyda 96% yn dweud eu bod un ai'n 'weddol fodlon ynteu'n fodlon iawn' arno.
- Mae pobl yn bur fodlon ar y gwasanaeth rheoli gwastraff ac ar lanweithdra, ac yr oedd 88% o drigolion yn cymeradwyo'r naill, ac 84% yn cymeradwyo'r llall. Serch hynny, gwasanaethau ailgylchu a chasglu eitemau swmpus o ochr y ffordd a fodlonai bobl fwyaf, a 9 o bob 10 o drigolion (sef 91% yn y naill achos a 90% yn y llall) a oedd yn eu cymeradwyo. Toiledau cyhoeddus a glanhau'r strydoedd a gafodd lai o gymeradwyaeth, gyda 57% o drigolion yn dweud eu bod yn fodlon ar y naill a 78% yn dweud eu bod yn fodlon ar y llall.



Stryd Fawr, y Bont-faen
Parc Alexandra, Penarth
Neuadd y Dref, Llanilltud Fawr

Ein cyllideb

Wrth wynebu her gynyddol prinder arian, bydd yn rhaid i ni nid yn unig arbed swm aruthrol o arian (£24.7 miliwn) yn ystod y tair blynedd nesaf ond hefyd barhau i wella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid. Gwnaethom gryn gynydd yn ystod 2014/15 drwy arbed £6.7 miliwn, a bydd angen arbed £6.8 miliwn unwaith eto yn ystod 2015/16. Deallwn mai dim ond drwy drefnu gwaith a darparu gwasanaethau mewn ffordd bur wahanol y deawn i ben â hynny. Felly, wedi derbyn yr her, yr ydym wrthi bellach, ar y cyd â'r cyhoedd a phartneriaid allweddol eraill, yn ystyried dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau, am mai dyna'r unig ffordd fydd gennym o allu cynnig darpariaeth eang o safon dderbyniol yn y pendraw.

Cyn gosod ein cyllideb ar gyfer 2014/15, buom yn ymgynghori â'r trigolion a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â blaenoriaethau'r Cyngor. Cawsom dystiolaeth yn sgîl hynny fod pob un o wasanaethau'r Cyngor yn ei dro o bwys i nifer sylweddol o drigolion y Fro.

Dysgu a Sgiliau oedd y maes yr oedd y nifer mwyaf o ymatebwyr (59%) yn ystyried y dylid rhoi blaenoriaeth uchel iddo, a'r nifer lleiaf (7%) yn ystyried y dylid rhoi blaenoriaeth isel iddo. Yr Amgylchedd oedd y flaenoriaeth gorfforaethol a gafodd y gefnogaeth fwyaf wedyn, a 57% a oedd am i'r Cyngor roi blaenoriaeth uchel iddi yn y dyfodol agos. 54% a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i Arweiniad Cymunedol ac 8% yn unig a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth isel iddo. 55% o ymatebwyr a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i waith sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, tra bod 13% yn teimlo y dylid rhoi blaenoriaeth isel i waith felly. Roedd Diogelwch Cymunedol a Chyhoeddus ar y cyfan yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel, gyda 47% yn ategu hynny a 15% yn unig yn teimlo y dylid rhoi blaenoriaeth isel iddo. Tai oedd y flaenoriaeth gorfforaethol a gafodd yr ymateb mwyaf cytbwys yn ôl pob golwg. 48% a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth uchel iddi, 35% a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth ganolig iddi a 18% a deimlai y dylid rhoi blaenoriaeth isel iddi yn y dyfodol agos. Roedd hyd yn oed lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, sef y flaenoriaeth gorfforaethol a gafodd yr ymateb lleiaf cadarnhaol, o bwys gan gryn nifer, am mai 23% o'r rhai a ymatebodd yn unig a deimlai y dylai gael blaenoriaeth isel.

Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos na wya trigolion y Fro'n aml pa wasanaethau sy'n rhan o orchwyl gwaith yr awdurdod lleol, a'u bod gan hynny'n pryderu bod y Cyngor yn ariannu gwasanaethau nad yw'n gyfrifol amdanynt.

Yn ystod 2014/15, gwariodd y Cyngor 48% o'i gyllideb o £214.331 miliwn ar Wasanaethau Addysg a Llyfrgelloedd, 25% ar Wasanaethau Cymdeithasol, 10% ar Adeiladu a Gwasanaethau Gweladwy, 8% ar Amddiffyn y Cyhoedd a Pholisi, 6% ar dai eraill, budd-daliadau a chymorth Treth y Cyngor a 3% ar Gynllunio, Trafnidiaeth, Datblygu Economaidd a Hamdden. Gwariom £58 miliwn hefyd ar brosiectau cyfalaf a ariannwyd gan gyfuniad o fenthyciadau, grantiau, derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau refferiwl. Cewch wybod rhagor am gyllideb y Cyngor yn y Datganiad Llawn o Gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2014/15.



Ogmore
St Brides Major
Y Seren, Llanilltud Fawr

● Crynhoi ein cynnydd yn ôl Amcanion Gwella 2014/15

1. Cymhwyso pobl leol yn well ar gyfer eu cyflogi drwy roi cyfle iddynt ddysgu a meithrin sgiliau galwedigaethol a sgiliau gwaith.

Casglwn i ni gyflawni'r hyn a oedd gennym mewn golwg yn 2014/15, a dyma sut y gwyddom hynny:

- Drwy gydweithio â phrif bartneriaid, buddsoddwyr a phrosiectau adfywio, yr ydym wedi sicrhau bod cymaint o gyfle ag sy'n bosibl i bobl dderbyn hyfforddiant a gweithio. Gwnaethom hyn drwy ganolbwyntio ar symud y rhwystrau a oedd yn eu cadw rhag dysgu a chael hyd i swydd a thrwy feithrin eu sgiliau. O ganlyniad, y mae gan bobl fwy o hyder, bu mwy o bobl yn gyffredinol yn manteisio ar y cyfle i dderbyn hyfforddiant a gweithio ac y mae mwy o gleientiaid yn y pendraw wedi cael eu cyflogi.

⁶ Penderfynu ar weledigaeth ar gyfer y gymuned a chydweithio â nifer o wahanol bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol, cymunedol a phreifat er mwyn ei gwreiddu yw arweiniad cymunedol. Mae dyletswydd ar Gyngor Bro Morgannwg (o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) i gynrychioli'r gymuned gyfan a gweithredu ar ei rhan er mwyn darparu ar gyfer anghenion a dyheadau ei chymunedau unigol.

2. Sicrhau bod lleoliadau plant a phobl ifanc dan ofal yn fwy cynaliadwy a sefydlog.

Casglwn i ni gyrraedd y nodau a oedd gennym mewn golwg ar gyfer y flwyddyn, a dyma sut y gwyddom hynny:

- Cyrhaeddodd ein nod o ddarparu rhagor o ofalwyr maeth mewnol, a daethom â naw o blant a oedd gynt wedi'u lleoli'r tu allan i'r ardal yn ôl i fyw yn y Fro.
- Er na lwyddwyd i wario llai o arian yn gyffredinol fesul plentyn dan ofal, digwyddodd hynny am fod 10 plentyn maeth ychwanegol i'w lleoli eleni. Eto i gyd, y mae'r plant a leolwyd gyda theuluoedd, i gyd mewn cartrefi sefydlog yn yr ardal, ac y mae hyn yn cyd-daro â phrif flaenoriaethau'r Cyngor. Nid ydym wedi gwario cymaint ar y broses ddrutach o leoli plant mewn cartrefi preswyl y tu allan i'r ardal.
- Barnodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn ystod ei harchwiliad yn 2014 fod canlyniadau addysgol plant a phobl ifanc y Fro'n dra chadarnhaol. Byddwn yn parhau i weithio yn y tymor hir i ddarparu lleoliadau mwy sefydlog a chynaliadwy ar gyfer plant a phobl ifanc fregus fel mater o flaenoriaeth arbennig, fel y mae'r Cyngor yn ei argymhell.

3. Helpu mwy o bobl i fyw'n annibynnol.

Casglwn i ni gyflawni'r hyn a oedd gennym mewn golwg yn 2014/15, a dyma sut y gwyddom hynny:

- Mae cyflwyno fframwaith ardaloedd unedig newydd ar adeg o alw cynyddol, yn dechrau cael effaith gadarnhaol drwy hwyluso'r ffordd i bobl hŷn yn gyffredinol fanteisio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Nid oes cymaint o ailadrodd gwaith, a bydd pobl yn cael yr help sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Serch hynny, blaenoriaeth hirdymor i'r Cyngor yw hyn o hyd wrth i ni symud ymlaen.

4. Cefnogi a gwella canol trefi Bro Morgannwg er lles trigolion, ymwelwyr a busnesau.

Casglwn i ni gyrraedd y nodau a oedd gennym mewn golwg ar gyfer y flwyddyn, a dyma sut y gwyddom hynny:

- Yn ystod 2014/15, buom yn cydweithio'n llwyddiannus â chanol trefi a busnesau'r Fro er mwyn hyrwyddo buddsoddi a gwella'r amgylchedd adeiledig fel y byddai'r mannau hynny'n fwy bywiog a deniadol.
- 76% o'r rhai a oedd wedi ymateb i Arolwg Barn Cyhoeddus 2014 a deimlai fod canol trefi'r Fro'n fannau deniadol i ymwelwyr. Mae creu canol trefi egniol a hardd yn rhan fawr o'n gweledigaeth adfywio o hyd. Cy chwyn yn unig i raglen hir o gynlluniau ar gyfer meithrin a gwarchod y bywiogrwydd hwnnw yn y tymor hir yw'r gwaith a wnaethpwyd hyd yma.



Ardal y Glannau, y Barri

Parc BelleVue, Penarth

Hen dref Lanilltud Fawr

5. Sicrhau bod llai o bobl ifanc yn cael eu dosbarthu fel rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.

Casglwn i ni gyrraedd y nodau a oedd gennym mewn golwg ar gyfer y flwyddyn, a dyma sut y gwyddom hynny:

- Gwnaethpwyd llawer o waith ar y cyd â phrif bartneriaid a llwyddo o ganlyniad i ostwng canran y rhai a ddosbarthwyd i'r categori hwn o 3.8% i 2.75% ym mlwyddyn 11 ac o 2.02% i 1.78% ym mlwyddyn 12.
- Mae ein perfformiad o safbwynt nifer y plant blwyddyn 13 a ddosberthir fel rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant hefyd wedi gwella wrth i'r ganran ddisgyn o 4.8% i 4.08%. Cafodd mwy o bobl ifanc dros 18 oed hefyd gymorth i ddod o hyd i swydd.

6. Cymryd llai o amser i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.

Casglwn i ni gyflawni'r hyn a oedd gennym mewn golwg yn 2014/15, a dyma sut y gwyddom hynny:

- Erbyn hyn, bydd grant ar gyfer defnyddiwr gwasanaethau'n cael ei ddarparu mewn dwy ran o dair o'r amser a gofnodwyd y llynedd. Gwellodd ein perfformiad o'i gymharu â pherfformiad cynghorau eraill Cymru, a chawsom ein rhestru'n 8fed eleni o'i gymharu ag 16eg y llynedd.
- Byddwn yn parhau i gydweithio â chwsmeriaid er mwyn sicrhau bod eu profiad o'r broses grantiau'n un sy'n gadarnhaol drwyddi draw ac o gymorth iddynt ddod yn fwy annibynnol. Dywedodd y rhan fwyaf o gwsmeriaid a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn eu bod yn fodlon arno, a'u bod hefyd yn fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad i'r cymorth a gawsant.

7. Cefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella lefel cyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.

Casglwn i ni gyrraedd y nodau a oedd gennym mewn golwg ar gyfer 2014/15, at ei gilydd, a dyma sut y gwyddom hynny:

- Roedd perfformiad disgyblion ym mhob cyfnod yn parhau i wella yn ystod blwyddyn academiaidd 2013/14. Bu cryn wella o safbwynt nifer y bobl ifanc sy'n cyrraedd safon dangosydd lefel 2+ - sef llwyddo mewn 5 arholiad TGAU gan gynnwys y Gymraeg neu'r Saesneg a mathemateg ac ennill graddau rhwng A* ac C. 62% a gyrhaeddodd y safon yn 2014 o'u cymharu â 55.4% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Rydym wedi cydweithio ag ysgolion er mwyn cwrdd ag anghenion pob myfyriwr rhwng 14 a 19 oed, ac yr oedd hynny o gymorth i sicrhau na adawodd unrhyw un addysg orfodol heb gymhwyster cymeradwy.
- Mae'r bwlch rhwng safon perfformiad plant sy'n hawlio prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion wedi cau ryw ychydig yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 ond agor yng Nghyfnod Allweddol 4. Byddwn yn parhau i weithio er mwyn gwella perfformiad ym mhob cyfnod allweddol. Bydd codi safonau a lefelau cyrhaeddiad yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yn y tymor hir, er mwyn i ni gael cynnig yr addysg orau bosibl i'n disgyblion, a sicrhau'r lefelau cyrhaeddiad gorau ym mhob cyfnod allweddol.

8. Gwella ein gwasanaeth trwsio ymatebol ar gyfer tenantiaid.

Casglwn i ni gyrraedd y nodau a oedd gennym mewn golwg ar gyfer y flwyddyn, a dyma sut y gwyddom hynny:

- Drwy droi'n wasanaeth symudol, daethom yn fwy effeithiol a chynhyrchiol, ac y mae costau cyffredinol y gwasanaeth yn llai. Gwelodd tenantiaid hefyd fod y broses ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion, gallu'r gwasanaeth i ymateb yn brydlon a safon y gwaith yn llawer gwell erbyn hyn.
- Yn ystod y flwyddyn, 93% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn fodlon ar ein proses ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion, a 92% a ddywedodd eu bod yn fodlon ar safon y gwaith a wnaethpwyd. Byddwn yn parhau i weithio yn y tymor hir er mwyn gwella'r gwasanaeth yn fwy fyth ar gyfer tenantiaid y Cyngor.



Morglawdd, Harbwr y Barri
Pentref Canoloesol Cosmeston
Arfordir Treftadaeth

Am fwy o wybodaeth am bob un o'r amcanion gwella uchod, ewch i gael golwg ar ddogfen lawn Cynllun Gwella Rhan 2: Arolwg Blyneddol ar Berfformiad 2014/15.



Ysgol Bro Morgannwg
Parc Victoria, Y Barri
Y Hwb, Y Barri

● Dysgu rhagor

Os hoffech wneud sylwadau neu os ydych am wybod rhagor ar ôl darllen y crynodeb hwn, y mae croeso i chi gysylltu â ni drwy:

anfon llythyr i gyfeiriad: Perfformiad a Datblygu, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
anfon neges i: improvements@valeofglamorgan.gov.uk
ffonio: 01446 700111

Cewch gyfrannu i weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu'r Cyngor ac awgrymu amcanion gwella ar gyfer y dyfodol drwy ymuno â phanel dinasyddion Barn y Fro. Fel aelod o'r panel, bydd gennych hawl i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gynhelir gan neu ar ran y Cyngor a'i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Cewch ymuno mewn chwinciad drwy lenwi'r ffurflen fer ar-lein.

Barn y Fro



Vale of Glamorgan
Local Service Board
Bwrdd Gwasanaethau Lleol
Bro Morgannwg

